# Ein cynllun corfforaethol 2023–25

Nod ein hymrwymiadau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yw gwella iechyd a lles pobl drwy gefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig.

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Cymorth rhagweithiol i weithwyr proffesiynol

1 Darparu set newydd o safonau uchelgeisiol ar ôl cofrestru yn canolbwyntio ar ymarfer nyrsio cymunedol*.

2 Darparu hyblygrwydd helaethach mewn addysg a hyfforddiant cyn cofrestru mewn nyrsio a bydwreigiaeth trwy lansio safonau newydd ar gyfer addysg cyn cofrestru yn y DU.

3 Adolygu rheoleiddio uwch ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth.

4 Adolygu gofynion ailddilysu i nyrsys a bydwragedd proffesiynol.

5 Gweithredu ymagwedd newydd wedi'i gyrru gan ddata a chymesur at sicrwydd ansawdd addysg sy'n ein galluogi i gael arolwg mwy cyfannol o sefydliadau a'u rhaglenni i wneud ymyriadau priodol.

6 Mesur a yw amser dysgu gwarchodedig yn unol â safonau nyrsio cyswllt presennol.

## Gwella ac arloesi

7 Lleihau ein baich achosion addasrwydd i ymarfer a gwneud gwelliannau i sut rydym yn rheoleiddio i sicrhau ein bod yn prosesu achosion mewn modd amserol, diogel, cymesur ac effeithlon.

8 Gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu rhaglen sylweddol o ddiwygio rheoleiddiol i ddileu rhwystrau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar y ffordd rydym yn rheoleiddio ynddi.

9 Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad i sicrhau bod ein prosesau yn deg i bawb.

*Cwblhawyd y gwaith hwn gennym yn 2022.

10 Parhau i sicrhau bod capasiti OSCE yn ateb galw ac i archwilio ffyrdd o wella mynediad.

11 Darparu newid polisi a deddfwriaethol i alluogi ymagweddau newydd at gofrestriadau rhyngwladol, gan gynnwys adolygiad ychwanegol o gyfarwyddyd iaith Saesneg, i sicrhau ei fod yn deg.

12 Cynnal y gofrestr argyfwng Covid-19.

## Mwy gweladwy a mwy gwybodus

13 Adeiladu ymddiriedaeth mewn rheoleiddio proffesiynol trwy ymgyrchoedd wedi'u targedu i adeiladu ymwybyddiaeth o bwy ydym ni, yr hyn rydym yn ei wneud, a'r hyn rydym yn sefyll drosto.

14 Ehangu ein cyrhaeddiad cenedlaethol a lleol i sefydlu rheoleiddio, cymorth a dylanwad ar lefel leol.

## Grymuso ac ymgysylltu

15 Creu gwefan fodern a hygyrch sy'n portreadu ein gwerthoedd yn effeithiol, yn darparu ein gwasanaethau craidd, ac yn gwella ein cyfathrebiadau ac ymgysylltu.

## Mewnwelediad a dylanwad helaethach

16 Gwella ein mewnwelediad a'i ddefnyddio i wella ein heffaith reoleiddiol a'n dylanwad mewn cymdeithas.

## Sefydliad addas ar gyfer y dyfodol

17 Darparu ein Cynllun Pobl sy'n cynorthwyo ein cydweithwyr i gymryd rhan, cael eu cadw a'u cynorthwyo i ddarparu ein strategaeth.

18 Gwella'r ffordd rydym wedi cael ein strwythuro er mwyn inni allu darparu ein strategaeth.

19 Diweddaru systemau digidol sy'n cynorthwyo sut rydym yn rheoleiddio'r profiadau i gwsmewriaid a chydweithwyr.

20 Darparu TG cyfoes trwy ein rhaglen gwella technoleg a busnes craidd i wella ein heffeithlonrwydd.

21 Creu mannau gwaith modern sy'n cynorthwyo llesiant a chydweithio.

22 Gweithredu cynllun cynaliadwyedd ac amgylcheddol NMC.

## Ymrwymiad newydd ar gyfer 2023–2024

Gweithredu safonau'r iaith Gymraeg newydd.